



Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd

PROSPECTWS 2022-2023



Cysylltu

Pennaeth: Mrs Helen Oldfield BA

Ffôn: 01824 703169

e-bost: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk

Trydar: @ysgllanfairdc

Cyfeiriad: Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 2SD

Cadeirydd Llywodraethwyr: Mr Geraint Jones
The Old Farmhouse, Bathafarn, Llanrhydd
Rhuthun Ffôn: 01824 707168

Pennaeth Addysg: Mr Geraint Davies
Swyddfeydd y Cyngor, Rhuthun Ffôn: 01824 708009



Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2SD

Annwyl Rieni

Croeso cynnes i chi i Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd. Gobeithio y byddwch chi a'ch plentyn yn hapus yn ystod y cyfnod y bydd eich mab/merch yn ddisgybl yma.

Mae dewis yr ysgol gywir ar gyfer eich plant yn hanfodol bwysig. Wrth ddewis mae rhieni rhan amlaf am i'w plant gael addysg dda, ond maent hefyd am iddyn nhw deimlo'n hapus ac yn ddiogel. Credwn yma yn Ysgol Llanfair y gallwn gynnig addysg eang a chytbwys i'ch plentyn, a hynny mewn awyrgylch gyfeillgar, hapus a diogel. Mae pob un plentyn yn wahanol ac yn arbennig yn ei ffordd ei hun, ac yma yn Llanfair byddwn yn rhoi'r cyfle iddynt gyrraedd eu llawn potensial. Down i adnabod pob plentyn yn bersonol ac yn drylwyr er mwyn iddo dderbyn addysg gyflawn. Ceir perthynas agos a phartneriaeth dda a brwdfrydig rhwng yr holl staff, y plant a'r rhieni.

Gwerthfawrogwn a pharchwn ein disgyblion a chredwn y dylai eu cyfnod yn yr ysgol fod yn un hapus ac addysgiadol. O ddewis anfon eich plentyn i Ysgol Llanfair, yr wyf yn hollol hyderus eich bod wedi gwneud y dewis cywir. Mae croeso i chi gysylltu â mi yn yr ysgol os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau pellach.

Yn gywir

Helen Oldfield
Pennaeth

Staff yr Ysgol

Pennaeth

Mrs Helen Oldfield

Cyfnod Sylfaen

Meithrin, Derbyn
Blwyddyn 1 a 2

Mrs Mari Evans a Mrs Nia Johnson
Mrs Iona McKee

Cyfnod Allweddol 2

Blwyddyn 3 & 4
Blwyddyn 5 & 6

Mrs Eirian Hughes Jones
Mrs Fflur Williams

Cydlynnydd ADY

Mrs Helen Oldfield

Cymorthyddion Dosbarth

Miss Sioned Wyn Owen, Mrs Sue Muirhead, Mrs Ceri Rumney,
Mrs Kate Griffiths, Mrs Jane Roberts, Mrs Steph Humphreys,
Mrs Helena Lawrence

Ysgrifenyddes

Mrs Mari Wynne Jones

Gofalwraig

Mrs Susan Muirhead

Glanhawraig

Miss Samantha Muirhead

Cynorthwyyr Amser Cinio

Mrs Susan Muirhead, Mrs Ceri Rumney, Mrs Jane Roberts,
Mrs Steph Humphreys

Cogyddes

Mrs Sue Bailey

Goruchwylwyr Clwb Brecwast

Mrs Sue Muirhead, Miss Samantha Muirhead

Llywodraethwyr yr Ysgol

Cadeirydd

Mr Geraint Lewis Jones	Aelod Awdurdod Lleol
Mrs Gwenllian Murphy	Aelod Sylfaenol
Parchedig Richard Carter	Aelod Sylfaenol
Mrs Leah Carroll	Rhiant Lywodraethwr
Mrs Glenys Ellis	Rhiant Lywodraethwr
Mrs Teleri Sian Barker	Rhiant Lywodraethwr
Mr Rhys Hughes	Rhiant Lywodraethwr
Mr John Kerfoot Jones	Aelod Cymuned
Mrs Alison Duncan	Aelod Awdurdod Lleol
Mrs Eirlys Evans	Aelod Awdurdod Lleol
Mr Brian Lewis	Aelod Cymuned
Mrs Ruth James	Aelod Sylfaenol
Mrs Helen Oldfield	Pennaeth
Mrs Fflur Williams	Staff
Mrs Ceri Rumney	Staff

Clerc

Miss Meinir Ellis

Datganiad o'n Bwriad

Mae addysg am oes. Yn yr ysgol rydym yn parhau â'r broses yma. Ein nod yw arwain, annog, meithrin a darparu profiadau i'r disgyblion mewn awyrgylch Gristnogol o gariad, cyfeillgarwch a diogelwch. Rydym yn Ysgol Eglwys yng Nghymru.

Statws Ysgol Eglwys yr Ysgol

Deillia statws Ysgol Llanfair fel ysgol Eglwys yn ôl i'r 19eg Ganrif pan gytunwyd ar weithredoedd rhwng y Gwir Barchedig Gregory Cameron, Esgob Llanelwy a noddwyr eraill a fyddai'n rhoi darpariaeth i gael ysgol i addysgu plant ac oedolion plwyf Llanfair yn unol ag egwyddorion yr Eglwys Sefydledig - Eglwys Lloegr ar y pryd.

Ers y dyddiau hynny datblygodd yr ysgol wrth i nifer o fesurau seneddol gael eu pasio ond cadwyd ei statws eglwysig. Erbyn hyn, mae dau fath o ysgol Eglwys – Gwirfoddol a Gynorthwyr a Gwirfoddol Reoledig. Ysgol Reoledig yw Ysgol Llanfair. Mae gofyn i Gyngor Plwyf yr Eglwys ethol dau gynrychiolydd i fod ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol ac Esgobaeth Llanelwy a'i Bwrdd Llywodraethol yn gymorth i gynnal enw da ysgolion Eglwys yng Nghymru a Lloegr. Drwy hyn rydym yn cynnal ethos Cristnogol yr ysgol tra hefyd yn estyn croeso cynnes i deuluoedd o gredoau eraill.

Gwasanaethau Boreol

Dydd Llun	-	Gwasanaeth Dosbarth
Dydd Mawrth	-	Gwasanaeth Cyfnod Allweddol
Dydd Mercher	-	Gwasanaeth Cyfnod Allweddol
Dydd Iau	-	Gwasanaeth Cyfnod Allweddol
Dydd Gwener	-	Gwasanaeth Gwobrwyo

Nod ac Amcanion Ysgol Llanfair

Nod yr Ysgol

Creu amgylchfyd ac awyrgylch a fydd yn helpu pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn a hyderus trwy roi cyfle iddo/iddi ddatblygu ei holl ddoniau hyd eithaf ei (g)allu.

Creu ymwybyddiaeth ynddo/ynddi o hawliau a lles eraill, a'i helpu i ddatblygu yn aelod cyfrifol o'r gymuned leol a'r gymdeithas ehangach.

Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr AALI a'r llywodraeth ganolog.

Galluogi pob disgybl, Cymraeg a Saesneg, i gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog.

Amcanion yr Ysgol

Y Plentyn

Helpu'r plentyn i ddatblygu'n feddyliol, yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn ysbrydol, gan feithrin ynddo/ynddi'r gallu i werthfawrogi ceinder a harddwch y byd naturiol a'r hyn a grëwyd gan ddyn.

Awyrgylch ac Ethos

Sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal athrawon â'i gilydd, athrawon â disgyblion, a disgyblion â'i gilydd, sydd yn galluogi disgyblion i ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu eu hunan hyder.

Cwricwlwm

Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu ar ei gyfer gwricwlwm perthnasol, gwahaniaethol, eang a chytbwys sy'n cydymffurfio â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a pholisiau'r awdurdod addysg.

Trefniadaeth

Sicrhau cydlynedd a chytbwysedd trwy'r holl ysgol, manteisio ar wahanol arbenigedd a fewn yr ysgol, a rheoli adnoddau yn effeithiol.

Datblygiad Staff

Sicrhau datblygiad proffesiynol staff ac anghenion y disgyblion trwy raglen o hyfforddiant effeithiol.

Rhieni

Sefydlu perthynas gyfeillgar, gadarn a phroffesiynol rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n galluogi athrawon a rhieni i drafod yn agored a chydweithio er budd y plant.

Adeiladau

Creu amgylchfyd glân, clyd a diddorol i ddisgyblion a staff. Ceisio cyfoethogi'r ddarpariaeth bresonnol yn chwaethus.

Y Gymuned

Cymryd rhan fywiog ym mywyd y gymuned er ennill parch y gymuned a meithrin yn y plant barch tuag at eu cymuned.

Ethos yr Ysgol

Gwnaed darpariaeth yn 1854 ar gyfer sefydlu ysgol i'w rhedeg yn unol â gwerthoedd a safonau moesol yr Eglwys Sefydledig (yr Eglwys yn Lloegr yn y dyddiau hynny). Datblygodd ein hysgol o'r ysgol gyntaf honno i'r ysgol sy'n bodoli heddiw sydd yn ysgol reoledig o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Ond mae'r gwerthoedd Cristnogol cynnar hynny i'w gweld yn amlwg iawn yn yr ysgol o hyd.

Caiff yr ysgol ymweliadau cyson gan Ymwelydd yr Esgob, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth a Ficer eglwys y plwyf (Sant Cynfarch a'r Santes Fair). Ymwelodd ein cyn-esgob, y Gwir Barchedig John S Davies, Esgob Llanelwy, yn 2008.

Mae'r ethos Cristnogol yma yn rhoi inni ysgol hapus a threfnus a gellir gweld hyn yng ngofal yr athrawon o'r plant ac ym mharch y plant tuag at ei gilydd. Mae'n annog perthynas gynnes rhwng staff a disgyblion trwy gwrteisi, cyfeillgarwch a chyd-weithio.

Anogir y plant i ddangos parch at eiddo ac eraill tra'n datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim, ynghyd â chyfrifoldeb cymdeithasol o fewn persbectif Cristnogol. Gwelir y gofal a'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion arbennig fel blaenoriaeth uchel. Ychwanegir hefyd at ddatblygiad diwylliannol y plant trwy ymweliadau oddi allan i'r ysgol i'r gymuned leol, i'r theatr a thrwy gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd. Mae ymwelwyr i'r ysgol hefyd yn ychwanegu at brofiad y plant o'r byd ehangach.

Mae Ysgol Llanfair yn mwynhau cefnogaeth wych gan rieni. Mae yma GRHA weithgar dros ben sy'n llwyddo i godi swm dda o arian yn flynyddol at gronfa'r ysgol. Cefnogwn nifer o elusennau'n flynyddol.

Dysgwn y plant i barchu eu hunain a'r hyn sydd o'u cwmpas ar safle'r ysgol. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lleoedd golau, prysur lle arddangosir gwaith y plant ac mae hyn yn ychwanegu at ddelwedd bositif yr ysgol.

Addoli ar y Cyd

Cynhelir cyfnod cyd-addoli yn ddyddiol. Mae cyd-addoli'n cynnwys pob aelod o'r ysgol yn cyfarfod fel dosbarth, cyfnod allweddol neu ysgol gyfan. Disgwylwn i bob plentyn fod yn bresennol yn y gwasanaethau yma.

Hawl i Eithrio

Mae gan rieni hawl i ofyn caniatâd i'w plentyn gael ei esgusodi o fod yn bresennol yn y gwasanaethau dyddiol, a bydd yr ysgol yn gwneud trefniadau goruchwyllo ar gyfer y plentyn yn ystod y cyfnodau hyn.

Trefniant Dosbarth

Dosberthir y plant i bedwar dosbarth:

Dosbarth y Blynyddoedd Cynnar

Athrawes	Mrs Mari Evans/Mrs Nia Johnson
Cymorthyddion	Miss Sioned Wyn Owen, Mrs Kate Griffiths, Mrs Jane Roberts
Meithrin	- 12
Derbyn	- 16

Dosbarth Blwyddyn 1 a 2

Athrawon	Mrs. Iona McKee
Cymorthyddion	Mrs Ceri Rumney, Mrs Steph Humphreys
Blwyddyn 1	- 14
Blwyddyn 2	- 15

Dosbarth Blwyddyn 3 a 4

Athrawes	Mrs Eirian Hughes Jones
Cymhorthydd	Mrs Sue Muirhead, Mrs Helea Lawrence
Blwyddyn 3	- 15
Blwyddyn 4	- 15

Dosbarth Blwyddyn 5 a 6

Athrawes	Mrs Fflur Williams
Blwyddyn 5	- 14
Blwyddyn 6	- 15

Strwythur Dwyieithrwydd

Ysgol ddwyieithog yw Ysgol Llanfair sydd, o dan y system gategoreiddio gyfredol, yn ysgol Categori 2 (gweler esboniad llawn isod *). Fodd bynnag, mae ein hagwedd at ddwyieithrwydd yn unigryw o fewn Sir Ddinbych.

Cymraeg yw iaith weithredol yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfathrebu rhwng staff a disgyblion yn y Gymraeg. Cyflwynir yr addysg yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhieni ddewis naill ai Cymraeg neu Saesneg fel cyfrwng addysg eu plant, ond bydd y plant i gyd yn parhau i gael eu dysgu yn yr un dosbarth, gyda'r Gymraeg yn cadw ei amlygrwydd cryf. Fodd bynnag, caiff plant Cyfnod Allweddol 2 eu ffrydio i grwpiau iaith gyntaf ac ail iaith ar gyfer eu gwersi Cymraeg.

Profodd y system yma, sydd wedi bod mewn lle yn Ysgol Llanfair am fwy na dwy ddegawd, yn gyson fanteisiol i'r disgyblion i gyd. Mae'r plant yn gweithio'n dda ochr yn ochr â'i gilydd, gan ennill cymhwysedd a chodi lefelau cyrhaeddiad yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Golyga'r integreiddio hwn, o fewn y dosbarth ac ym mhob gweithgaredd, bod y plant i gyd, waeth beth yw eu dewis ieithyddol, yn gallu cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith erbyn iddynt adael yn 11 oed.

Byddem yn cynghori teuluoedd sy'n ystyried Ysgol Llanfair ar gyfer plant 7-11 oed, nad oes ganddynt brofiad blaenorol o gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i feddwl yn ofalus ydi ein strwythur dwyieithog yn addas. Er y byddai'r disgyblion newydd yma yn derbyn cefnogaeth ychwanegol, trwy wersi trochi Cymraeg allanol a gynlluniwyd i'w helpu i drosglwyddo i amgylchedd ein dosbarthiadau, efallai na fyddai'r lefel a maint y Gymraeg a ddefnyddir yn y dosbarth yn addas ar eu cyfer.

Mewn ysgol lle mae dwyieithrwydd yn digwydd yn naturiol ac yn adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned leol, rydym yn llwyddo i gynnal ethos Cymraeg cadarn, ymwybyddiaeth ddiwylliannol gref a safonau academiaidd uchel.

* Ysgolion Cynradd – Categori 2	Mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. Mae rhieni/disgyblion yn dewis naill ai ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg yn bennaf neu gyfrwng Saesneg yn bennaf a ddarperir fel arfer fel yng nghategoriâu 1 a 5 yn y drefn honno.	Defnyddir Cymraeg a Saesneg ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion yn dibynnu ar natur y ddarpariaeth gwricwlaidd, ond mewn rhai ysgolion rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg trwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y ddwy iaith.
--	---	--

Sylwer: O Fedi 2023 bydd y Cyfnod Sylfaen yn uniaith Gymraeg. Bryd hynny, bydd plant sy'n dechrau Ysgol Llanfair yn cael eu haddysgu yn yr iaith Gymraeg trwy'r Cyfnod Sylfaen. Ar ddechrau Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 3) caiff teuluoedd y dewis i'w plant barhau eu haddysg yn y Gymraeg neu newid i'r cyfrwng Saesneg. Bydd hyn yn sicrhau y caiff pob plentyn sylfaen gref yn yr iaith Gymraeg sydd yn unol â'n hunaniaeth ni fel ysgol. Bydd hefyd yn gyson â strategaeth yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Siarter yr Iaith Gymraeg

Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd wedi ymrwymo i ddilyn y flaenoriaeth Genedlaethol 'Siarter yr Iaith Gymraeg', gyda'r nôd o gyfoethogi iaith trwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol - y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn ogystal âg annog mwy o wrando ar gerddoriaeth Cymraeg a gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg. Mae'r ysgol wedi llwyddo i dderbyn y wobr Efydd fis Mehefin 2016 ac yn anelu am yr aur eleni.

Y Cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn mabwysiadu'r Cwricwlwm Newydd ym Medi 2022.

Y Cwricwlwm Newydd

Ymgysylltwyd gyda'r dysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr a'n cymuned leol, trwy holiaduron wrth ddechrau'r broses o gynllunio i'r cwricwlwm newydd, trafodwyd y rhinweddau allweddol a fyddai'n sail i'n cwricwlwm a'n gweledigaeth. Megis cychwyn yr ydym ar hyn o bryd ar ein siwrnai i wireddu'r weledigaeth ac mi fyddwn yn cynnwys barn yr holl rhandeiliad wrth werthuso a mireinio'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanfair DC yn y dyfodol. Mae'r pedwar diben yn ganolog wrth i ni ddylunio'r cwricwlwm a'r pwerau dysgu yn rhan annatod o'r dysgu, addysgu ac asesu cynnydd ein dysgwyr.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan yr ysgol – www.ysgollanfairdc.cymru

Polisiau

Cynlluniwyd polisiau ar y pynciau a addysgir, polisiau statudol a'r polisiau a argymhellir a chant eu hadolygu'n rheolaidd gan y Corff Llywodraethol a'r staff. Mae croeso i riant ofyn am gopi o unrhyw bolisi a ddymument ei weld.

Gwaith Cartref

Rhoddir gwaith cartref yn rheolaidd i ddisgyblion CA2 a'r Cyfnod Sylfaen (Bl 1 a 2). Byddant yn cael gwaith fydd yn atgyfnerthu unrhyw waith diweddar a gyflawnwyd yn y dosbarth. Gofynnwn yn garedig i rieni gynorthwyo ac annog eu plant i gyflawni gwaith taclus, safonol.

Trafod Gwaith y Plant

Os hoffech drafod gwaith eich plentyn gallwch gysylltu â'r ysgol i drefnu gweld yr athrawes ddosbarth. Trefnir noson agored i rieni yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn, a noson i drafod adroddiad diwedd blwyddyn yn ystod wythnosau olaf Tymor yr Haf.

Darllen

Dyma'r gwaith cartref pwysicaf o bell ffordd. Mae'n hanfodol bwysig fod plentyn ifanc yn cael cyfle i fagu diddordeb mewn llyfrau a datblygu i fod yn ddarllenwr brwd a hyderus. Gall rhieni gyfrannu llawer iawn yn y maes yma thrwy ddarllen storiâu i'w plant ifanc yn rheolaidd ac yna wrando ar eu plant yn darllen yn gyson. Mae angen trafod y stori, y cymeriadau a'r sefyllfa. Wrth i blentyn ddatblygu i fod yn ddarllenwr rhugl, mae'n bwysig dal i'w annog a'i ysgogi i ddarllen ychydig bob nos.

Addysg Gorfforol

Ein nod yw cyflwyno ystod eang o brofiadau chwaraeon i alluogi'r holl blant i ymuno a mwynhau. Gobeithiwn

- ddatblygu sgiliau corfforol
- hyrwyddo agwedd positif at gadw'n iach a heini
- ddatblygu dealltwriaeth a phwysigrwydd cyd-chwarae o fewn tîm

Mae gennym gae eang a chwrt caled. Byddwn yn cystadlu mewn nifer o dwrnamentau chwaraeon yn ystod y flwyddyn, e.e. pêl-droed, rygbi, nofio, pêl-rwyd, athletau, rownderi a.y.b.

Cynhelir Clwb Chwaraeon i blant Bl 3-6 yn ystod tymhorau'r hydref a'r haf.

Bydd pob dosbarth yn ei dro yn cael gwersi Gymnasteg a Dawns yn neuadd yr ysgol. Bydd plant Bl 3-6 hefyd yn cael gwersi nofio am un tymor cyfan ym mhwill nofio Rhuthun.

Bydd disgwyl i bob plentyn wisgo'n addas ar gyfer gwersi ymarfer corff, h.y. crys-t/polo gwyn a siorts du neu glas tywyll.

Cerddoriaeth

Mae Cerddoriaeth yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Byddwn yn cystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Pwllglas. Rhaid i blant ymaelodi â'r Urdd er mwyn cael cymryd rhan yn yr Eisteddfod.

Cynigir gwersi gitâr a ffidil i blant Bl 3-6 gan diwtoriaid o gwmni Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych. Rhaid talu am y gwersi yma, £60 y tymor (£180 am y flwyddyn). Mae posib i'ch plentyn gael benthyc offer yn i ymarfer adre.

Pontio

Cydweithio yw pontio, a gwneud hynny mewn sawl ffordd:

- rhwng y Cylch Meithrin a'r ysgol (y Cylch wedi'i leoli yn adeilad yr ysgol a dwy aelod o staff y Cylch hefyd yn gymorthyddion yn y Dosbarth Meithrin)
- rhwng y gwahanol ddsbarthiadau
- rhwng Ysgol Llanfair a Brynhyfryd (ymweliad gan athrawon Brynhyfryd ac ymweliad gan blant BI 6 â Brynhyfryd yn ystod tymor yr Haf).

Addysg Rhyw

Credwn y dylai addysg rhyw fod yn rhan o addysg pob plentyn a'i fod yn elfen bwysig yn ei ddatblygiad cymdeithasol. Mae addysg rhyw yn cael ei integreiddio o fewn cwricwlwm ysgol trwy bynciau megis addysg bersonol a chymdeithasol a gwyddoniaeth. Yn unol â Deddf Addysg 1996, gall rhieni wneud cais i eithrio eu plentyn o'r gwarsi addysg rhyw ar wahân i'r elfennau sy'n ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Ond rhaid i rieni fod yn ymwybodol y gallai trafodaethau perthnasol godi'n naturiol yn ystod trafodaeth yn y dosbarth.

Bydd yr ysgol yn sicrhau y byddant yn delio yn sensitif wrth ymwneud ag unrhyw fater a fyddai'n achosi pryder i ddisgybl a cheisio datblygu dealltwriaeth plentyn o bwysigrwydd agwedd gyfrifol tuag at faterion rhywiol. Bydd ymwelydd iechyd yr ysgol yn cyfarfod â disgyblion BI 6 yn ystod tymor yr haf i gael sgwrs ynglŷn â llencyndod a thyfu i fyny. Byddwn yn defnyddio rhaglen arbennig o'r enw 'Sense' fel sail i'r sgwrs yma. Gall rhieni ddewis peidio â gadael i'w plentyn gymryd rhan yn y sgwrs hon.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

(Cydllynydd ADY – Mrs Helen Oldfield)

Yn ein hysgol ni rydym yn defnyddio'r diffiniad o ADY allan o'r Côt (Drafft).

Mae'n datgan:

"Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol" ("ADY") yn golygu'r hyn sydd yn Adran 2 y Ddeddf, sef

- (1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabled (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabled yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- (2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hyn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabled –
 - (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
 - (b) os oes ganddo anabled at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwda gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

Pan benderfynir rhoi cefnogaeth ADY i ddisgybl, byddwn yn siarad â'r rhieni a'r plentyn lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn cytuno ar yr addasiadau, ymyrraeth a chefnogaeth gorau, ynghyd â'r effaith ddisgwyliedig ar gynnydd, datblygiad neu ymddygiad, a phennu dyddiad ar gyfer adolygiad. Yr athrawes ddisbarth fydd yn gyfrifol am weithio efo'r plentyn o ddydd i ddydd.

Gweithgareddau Ychwanegol

Cynigir gweithgareddau allgyrsiol yn ystod y flwyddyn:

Clwb Garddio – mae'r Clwb yn cyfarfod yn ystod y prynhawn bob dydd Gwener, ac yn cael ei redeg gan rieni. Os oes gennych ddiddordeb mewn cynorthwyo, cysylltwch â'r Pennaeth.

Clwb Chwaraeon - cynhelir Clwb Chwaraeon i blant Bl 3-6 unwaith yr wythnos pan fo'r tywydd yn caniatáu yn ystod Tymor yr Hydref a'r Haf.

Clwb Nos Fawrth - Byddwn yn cynnal clwb bob dydd Mawrth drwy'r flwyddyn. Yn ystod tymor y gaeaf, cynigir clybiau amrywiol megis coginio, gwnio, achub bywyd, gemau bwrdd, celf

Clwb yr Urdd – byddwn yn paratoi at Eisteddfod yr Urdd yn ystod Tymor y Gwanwyn gan gynnal sesiynau celf, cerdd a llefaru i blant CA2 yn achlysurol ar ôl ysgol.

Codi Tâl am Weithgareddau

Y mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr gweithgareddau ychwanegol i addysg academaidd, bersonol a chymdeithasol disgyblion. Yn gyfreithlon, ni ellir gorfodi tâl ar rieni am y gweithgareddau hyn, ond gofynnwn yn garedig am gyfraniad gwirfoddol i gyfarfod y costau hyn. Mae hawl gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os yw'n ymddangos y byddai cyfraniadau gwirfoddol isel gan rieni yn golygu colled sylweddol i'r ysgol.

Gall plant sydd yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim gael caniatâd i beidio talu cost llety a bwyd ar ymweliadau preswyl.

Clwb Brecwast

Mae Clwb Brecwast yn rhedeg bob bore ac yn agor am 8.00yb. Y gogyddes ac un o gymorthyddion yr ysgol sy'n gyfrifol am redeg y clwb. Mae pob plentyn sy'n dod i'r clwb rhwng 8.00 – 8.20 yn talu £1 y dydd ond yn rhad ac am ddim i bob plentyn sydd yn dymuno cael brecwast rhwng 8.20 a 8.35. Mae'r Clwb yn cau am 8.35yb a giât yr ysgol yn agor am 8.45yb. Rhaid bod yn yr ysgol erbyn 8.35 i gael brecwast. Rhaid i rieni/gofalwyr arwyddo'r plant i mewn i'r clwb wrth eu danfon i'r ysgol.

Polisi Derbyn yr Ysgol

Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen blwyddi yn 3 oed. Byddant yn dod i'r ysgol am sesiwn y prynhawn o 1.00 - 3.15pm. Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen blwyddi yn 4 oed. Disgwylir i'r plant fynychu yn rheolaidd ar ôl cael eu cofrestru yn yr ysgol.

Rhoddir blaenoriaeth mynediad i blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol a phlant sydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol yn barod. Am fanylion pellach dylid cysylltu a gwneud cais am le drwy Adran Mynediad i Ysgol Cyngor Sir Ddinbych (01824 706100).

Mae'n hanfodol bwysig fod gan yr ysgol y wybodaeth ganlynol:

- Enw a chyfeiriad rhieni;
- Rhif ffôn adre a rhifau ffôn gwaith/rhif ffôn symudol;
- Rhif ffôn unrhyw un arall y medrwn gysylltu â hwy os na fedrwn gysylltu â rhiant;
- Enw a chyfeiriad meddyg y plentyn.

15 yw rhif derbyn swyddogol yr ysgol a 105 yw'r rhif capasiti disgyblion llawn amser.

Amseroedd Agor a Chau

Bore 8.55 - 12.00
Prynhawn 1.00 - 3.15

Disgwylir fodd bynnag i bob plentyn gyrraedd yr ysgol rhwng 8.45 a 8.55 y bore. Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw blant sy'n cyrraedd cyn 8.45am neu sydd dal ar dir yr ysgol ar ôl 3.30pm.

Oriau dysgu: Babanod - 21 awr yr wythnos
 lau - 23.5 awr yr wythnos

Trefn Amddiffyn Plant

Mae diogelu plant o bwysigrwydd mawr yma yn Ysgol Llanfair. Mae'n ddyletswydd statudol ar yr ysgol i gyfeirio unrhyw amheuaeth o gam-drin plant i'r asiantaethau priodol er lles y plentyn. Gall hyn olygu cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol neu esgeulustod.

Gofal a Disgyblaeth

Ceisiwn greu cymuned arbennig o fewn yr ysgol, gydag awyrgylch o gyd-fyw a chyd-weithio hapus. Rhoddir llawer o bwyslais ar:

- Meithrin a chynnal parch rhwng disgyblion â'i gilydd a hefyd rhwng holl staff yr ysgol a'r plant.
- Meithrin hunanddisgyblaeth yn y plant i weithio'n annibynnol ac i deimlo'n gyfrifol am yr hyn a wnânt.
- Meithrin parch at eiddo eraill.
- Meithrin parch at yr ysgol a'i hamgylchfyd.

Rydym yn ceisio gosod lefel uchel o ddisgyblaeth ac yn gwneud hynny yn y modd canlynol:

- Dod i adnabod ein disgyblion yn dda.
- Canmol ymddygiad ac ymdrechion da pob disgybl.
- Codi ymwybyddiaeth o'r angen am reolau ysgol.
- Ymdrin ag ymddygiad annerbyniol.
- Ymateb yn syth i bob problem a gyfyd.

Os bydd ymdrechion yr ysgol i ddatrys problem ddisgyblaeth yn aflwyddiannus, yna byddwn yn cysylltu â'r rhieni.

Salwch

Gyda rhai afiechydon, mae Awdurdod Iechyd Sir Ddinbych yn argymhell i'ch plentyn gadw'n glir o'r ysgol am nifer o ddyddiau:

Y Frech Ieir	- 7 diwrnod ar ôl darganfod y frech
Y Frech Goch	- 7 diwrnod ar ôl darganfod y frech
Y Frech Almaeneg	- 4 diwrnod ar ôl darganfod y frech
Clwy'r Pennau	- 7 diwrnod ar ôl i'r clwy' ddiflannu
Y Pâs	- 21 diwrnod ar ôl dechrau pesychu

Dylech roi gwybod i'r Pennaeth am unrhyw un o'r afiechydon hyn. Os oes gan eich plentyn 'verruca' neu 'droed athletwr' dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth gan na fydd y plentyn yn cael cymryd rhan yn y gwersi nofio, os nad yw'n gwisgo hosan arbennig.

Mae llau pen i'w darganfod yn achlysurol ymhob ysgol yn ei thro. Carem i chwi archwilio gwallt eich plentyn yn gyson a hysbysu'r ysgol os bydd problem.

Rydym yn argymhell i chi beidio ag anfon eich plentyn i'r ysgol os ydi wedi bod â dolur rhydd neu'n taflu fyny yn ystod yr 12 awr cyn amser ysgol a'u cadw gartref am 48 awr ar ôl iddynt wella.

Os digwydd i'ch plentyn fod yn sâl yn ystod oriau'r ysgol, fe wnawn bob ymdrech i gysylltu â chi cyn cymryd cyngor meddygol.

Cyflwyno Moddion

Pan fo plentyn i gymryd moddion dylai rhieni/gofalwyr geisio ei roi iddynt cyn ysgol, ar ôl ysgol ac yn y nos. Fodd bynnag, gallai fod amseroedd pan nad ydi hynny'n bosibl a bod rhaid i'r plentyn gael moddion yn yr ysgol. Yn yr achosion hyn, dylai'r moddion:

- a. fod o fewn y dyddiad;
- b. bod â label sy'n cynnwys cyfarwyddiadau clir;
- c. bod ag enw'r plentyn ar y label;
- ch. bod yn y botel/pecyn gwreiddiol fel y cafwyd gan y doctor/fferyllfa;

Mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr gwblhau ffurflen o'r ysgol sy'n rhoi manylion pryd a faint o'r moddion i'w roi i'r plentyn a lle i gadw'r moddion.

Caiff plant sy'n dioddef o'r fogfa (Asthma) ddod â phwmp i'r ysgol a'i roi yng ngofal ei athrawes ddosbarth. Yn ddelfrydol dylai cynllun gofal asthma gael ei adael yn yr ysgol efo'r pwmp a 'spacer'.

Absenoldebau

Mae presenoldeb rheolaidd yn hynod bwysig, a chyfrifoldeb cyfreithiol rhieni yw sicrhau hyn. Pan fo'ch plentyn yn absennol dylech gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosib i egluro'r rheswm. Os ydych yn gwybod y bydd eich plentyn yn absennol, e.e. apwyntiad doctor, deintydd, ysbyty, a.y.b., danfonwch nodyn atom yn cynnwys y dyddiad. Mae peidio ag anfon nodyn yn golygu ein bod yn cofnodi'r absenoldeb fel 'Absenoldeb heb ganiatâd'.

Mae'n ddyletswydd arnom fel ysgol i hysbysu'r Awdurdod Addysg pan fo plentyn yn 'absennol heb ganiatâd' yn gyson. Os oes gan blentyn o leiaf 20 sesiwn (10 diwrnod ysgol) o absenoldeb diawdurdod, beth bynnag fo'r rheswm (gan gynnwys gwyliau, bod yn hwyr ar ôl amser cau'r cyfnod cofrestru neu unrhyw absenoldeb diawdurdod arall) gall yr ysgol ofyn i'r Awdurdod Lleol gyflwyno hysbysiad cosb i'r rhieni/gwarchodwyr. Gall y broses hon arwain at ddirwy. Mae hyn yn berthnasol i ddisgyblion Blwyddyn 1 i Flwyddyn 6.

Presenoldeb 2018/2019

(*Dim data ar gael ar gyfer 2019/2020, 2020/2021 na 2021/2022 gan y bu'r ysgolion ar gau am gyfnodau oherwydd Covid19)

Presenoldeb	Absenoldeb efo awdurdod	Absenoldeb heb awdurdod
96%	2.8%	1.2%

Gohebiaeth Ysgol

Danfonir pob llythyr ysgol i rieni ar ebost. Anfonir cylchlythyr ar ebost yn rheolaidd efo newyddion a gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol.

Cinio

Darperir cinio am hanner dydd i unrhyw blentyn sy'n dymuno hynny. Goruchwylir y plant gan staff wedi eu hapwyntio i'w swyddi gan Lywodraethwyr yr ysgol. Gallwch ddewis prydau llysieuol i'ch plentyn os dymunwch. Gellir dod â brechdanau i'r ysgol, ond ni ddylid cynnwys diod 'ffisi' na fferins yn y pecyn bwyd. Telir arian cinio ar ParentPay, system dalu arlein ddiogel (£2.45 y diwrnod, £12.25 yr wythnos). Byddwch yn derbyn cod unigryw pan fydd eich plentyn dechrau yn yr ysgol er mwyn creu cyfrif ParentPay. Byddwn yn derbyn arian pecyn, tripiâu, gwersi offerynnol a.y.b. ar ParentPay. Pa un ai ydy'ch plentyn yn cael cinio ysgol neu frechdanau, disgwylir ymddygiad o'r radd flaenaf wrth y bwrdd cinio gan ddangos parch at y goruchwylwyr ac ufuddhau i'w gorchmynion.

Cynllun Llaeth am Ddim

Cynigir llaeth rhad ac am ddim i holl blant y Cyfnod Sylfaen. Mae plant CA2 yn cael cynnig prynu llaeth am 15c y dydd (75c yr wythnos) yn daladwy ar Parentpay.

Teithiau Allan o'r Ysgol

Yn ystod y flwyddyn mae'n debygol iawn y bydd eich plentyn yn derbyn rhyw gymaint o'i addysg y tu allan i'r ysgol, e.e. ymweliadau â theatr, llyfrgell, canolfan/adeilad arbennig a.y.b. Bydd gofyn i rieni lenwi ffurflen ganiatâd arbennig a byddwn yn sicrhau bod goruchwylwyr digonol ar gyfer yr ymweliad. Byddwch yn cael gwybod am yr ymweliadau mewn da bryd, a gofynnwn i'r disgyblion i gyd wisgo eu gwisg ysgol.

Gwybodaeth Bersonol

Mae'n bwysig ein bod yn cadw cofnod o enw llawn y plentyn, enwau rhieni, cyfeiriad, rhifau ffôn a.y.b. Gofynnwn am rif ffôn cyswllt brys hefyd rhag ofn na fedrwn gysylltu â'r rhieni. Os oes unrhyw newid yn y wybodaeth a roddir, rhaid cysylltu â'r ysgol yn syth. Rhaid rhoi gwybodaeth i'r ysgol am unrhyw anhwylder meddygol, e.e. alergedd, asthma a.y.b., a chynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn eich meddyg teulu.

Diogelwch yn yr ysgol

Mae diogelwch eich plentyn yn hynod bwysig. Mae gan yr adeilad system ddiogelwch sy'n cydymffurfio â rheolau tân. Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa. Nod yr ysgol yw creu amgylchedd diogel i'r plant weithio a byw ynddi, gan sicrhau arolygaeth briodol yn ôl y galw a chreu ymwybyddiaeth mewn plant o bwysigrwydd diogelwch.

Cyfle Cyfartal

Dibenion addysg yw:

“Helpu i ddatblygu gwerthoedd moesol, personol, parch at werthoedd crefyddol, goddefgarwch at hiliau eraill, crefyddau eraill a ffyrdd eraill o fyw, helpu disgyblion i ddeall y byd y maent yn byw ynddo a chyd-ddibyniaeth unigolion, grwpiau a chenhedloedd.”

Gwell Ysgolion

Adran Addysg a Gwyddoniaeth 1985

Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu'n gorfforol, yn feddyliol, yn foesol, yn ysbrydol ac yn gymdeithasol a hynny mewn awyrgylch lle perchir rhyddid ac urddas. Ceisiwn warchod plant rhag unrhyw weithgaredd a allai hybu gwahaniaethau ar sail hil, lliw, crefydd, rhyw neu unrhyw wahaniaeth arall. Mae gan bob plentyn hawl i ddatblygu ei alluoedd, i fynegi barn gytbwys, ynghyd â chyfrifoldeb moesol a chymdeithasol, a thyfu'n aelod defnyddiol o'i gymdeithas. Mae rhoi cyfle cyfartal yn ei alluogi i wneud hyn.

Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae yma Gymdeithas Rhieni ac Athrawon weithgar iawn yn Llanfair sy'n cyfarfod unwaith bob tymor i drefnu gweithgareddau i godi arian tuag at yr ysgol. Mae croeso i bob rhiant fynychu'r cyfarfodydd a'n gobaith yw y bydd pob teulu'n cefnogi'r gweithgareddau a drefnir.

Mae'r GRhA yn rhedeg Pêl Fonws y Loteri Genedlaethol yn wythnosol. Mae 49 o rifau i'w gwerthu am bris o £1 yr wythnos. Telir hanner yr arian fel gwobr yn wythnosol a bydd yr hanner arall yn mynd tuag at gronfa'r GRhA.

Cyfarfod Blynyddol y Rhieni

Mae'n ofynnol i bob ysgol gynnal cyfarfod blynyddol i rieni. Bydd y rhieni wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig o flaen llaw am holl waith y Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhieni a'r Llywodraethwyr wedyn yn trafod yr adroddiad. Gallwch godi unrhyw bwynt y dymunwch yn y cyfarfod hwn er mwyn i'r Llywodraethwyr ei ystyried yn eu cyfarfod nesaf.

Gwisg Ysgol

Defnyddir gwisg ysgol swyddogol yn Ysgol Llanfair DC:

- Crys chwys neu gardigan wyrdd (emrallt) gyda logo'r ysgol
- Crys polo gwyn neu glas tywyll
- Trowsus neu sgert glas tywyll plaen (nid trowsus chwaraeon gyda phatrwm neu linellau gwyn arno)
- Esgidiau duon

Yn yr Haf, caniateir i ferched wisgo ffrogiau 'gingham' gwyrdd ac i fechgyn a merched wisgo siorts glas tywyll.

Gellir archebu'r crysau chwys/cardigan a'r crysau polo, gyda logo'r ysgol arnynt, o Workplace Worksafe, Lôn Parcwr, Rhuthun.

Nid oes disgwyl i blant y Dosbarth Meithrin wisgo gwisg swyddogol yr ysgol. Rhaid rhoi enw/labeli ar y dillad os gwelwch yn dda.

Colur, Clustdlysau a Modrwyau

Oherwydd diogelwch, ni chaniateir gwisgo colur, clustdlysau (ar wahân i stÿds), modrwyau na chadwyni. Ni ddylid chwaith ddod ag unrhyw beth gwerthfawr i'r ysgol. Ni ellir dal yr ysgol yn gyfrifol am unrhyw golledion.

Y Drefn Gwyno

Y ffordd orau i ddatrys unrhyw gwyn neu broblem yw trwy drafod gyda'r pennaeth ac yna'r athro/athrawes ddosbarth neu unrhyw aelod arall o staff yr ysgol. Ni ddylid ceisio datrys problemau a gyfyd rhwng disgyblion trwy gysylltu'n uniongyrchol â'u rhieni. Mae'n llawer gwell cysylltu â'r ysgol i ddechrau gan ei fod fel arfer yn bosib datrys problemau'n rhwydd. Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon ag ymateb yr ysgol, dylid cyflwyno'r gwyn mewn ffurf ysgrifenedig at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Dylai'r fersiwn ysgrifenedig nodi natur y gwyn yn berffaith glir.

Cynllun Bwyta'n Iach

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o dystiolaeth wedi ei gasglu i gefnogi'r farn bod diet yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd. Yn unol â hyn, rydym yn ceisio hyrwyddo'r pwysigrwydd o fwyta'n iach. Ni chaniateir i'r plant ddod â fferins, creision, bisgedi, cacen, siocled i'w fwyta yn ystod amser chwarae. Yn hytrach, gellid prynu ffrwyth yn yr ysgol am 20c y dydd (£1 yr wythnos), neu ddod â ffrwyth

o adre. Os ydy'ch plentyn yn dewis dod â phe cyn bwyd i'w ginio, argymhellwn yn gryf eich bod yn cynnwys bwydydd iach, brechdanau, pasta, caws, iogwrt, llysiau amrwd, ffrwythau a.y.b. Ceisiwch osgoi bwydydd llawn braster a siwgr. Mae peiriant dwr oer yn yr ysgol a gofynnwn i bob plentyn ddod â photel i'r ysgol yn ddyddiol.

Crynodeb o Ganllawiau i Rieni

1. Disgwylir i bob plentyn gydymffurfio â rheolau'r ysgol. Os bydd unrhyw blentyn yn camymddwyn, gall y gosb amrywio o aros i mewn yn ystod amser chwarae, colli breintiau, gwaith neu ddyletswydd ychwanegol.
2. Disgwylir i'r plant ddod i'r ysgol yn brydlon rhwng 8.45 a 8.55 y bore.
3. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth i'r Pennaeth. Yn y cyswllt yma disgwylir:
 - (a) Ebost/llythyr o eglurhad os bu plentyn yn absennol.
 - (b) Ebost/llythyr caniatâd os yw plentyn yn ymweld â'r deintydd, meddyg a.y.b. yn ystod oriau'r ysgol.
 - (c) Ebost/llythyr o eglurhad os dymunir i'r plentyn gael ei esgusodi o'r gwersi nofio/chwaraeon/addysg gorfforol a.y.b.
 - (ch) Ebost/llythyr neu alwad ffôn os dymunwch ymweld â'r ysgol i drafod addysg eich plentyn. Yn ystod y flwyddyn ceir nosweithiau rhieni yn rheolaidd i drafod datblygiad.
4. Disgwylir i'r plant sy'n talu am ginio dalu ar ParentPay cyn iddynt gymryd cinio.
5. Cyfeiriwch at y Polisi Rheoli Anghenion Iechyd ar wefan yr ysgol am wybodaeth am roi meddyginiaeth i ddisgyblion.
6. Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar waith neu ymddygiad y plentyn.
7. Disgwylir safon uchel o ymddygiad gan blant sydd yn teithio i'r ysgol mewn tacsi neu fws.
8. Y mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol. Mabwysiadwyd y drefn hon ar gais y rhieni, a disgwylir i bawb wisgo'r wisg swyddogol.
9. Ni chaniateir siocled, fferins na chreision i'w bwyta amser egwyl.
10. Disgwylir i rieni roi enwau ar ddillad eu plant.
11. Dylai pob plentyn newid i ddillad addas i wneud Addysg Gorfforol.
12. Mae'n ofynnol i rieni lenwi ffurflen ganiatâd cyn y caniateir i'w plentyn fynychu ymweliadau tu allan i'r ysgol.
13. Os oes trefniadaeth wahanol i'r arfer wrth i blentyn fynd adref o'r ysgol, yna dylid rhoi gwybod i'r ysgol. Ni chaniateir i blentyn fynd adref o'r ysgol gyda ffrind heb wybodaeth ymlaen llaw gan y rhieni.
14. Dylai rhieni gysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad os ydynt am weld aelod o staff ynglŷn ag addysg neu les eu plentyn.

Dyddiadau Tymor Ysgol 2022/2023

HYDREF	2021-22	AUTUMN
Diwrnodau Hyfforddiant Staff (HMS)	01/09/2022	Staff Training Days (STD)
Diwrnodau Hyfforddiant Staff (HMS)	02/09/2022	Staff Training Days (STD)
Dechrau'r Tymor	05/09/2022	Term Start
Cau Hanner Tymor	28/10/2022	Half Term Close
Agor Hanner Tymor	07/11/2022	Half Term Open
Diwedd Tymor	23/12/2022	End of Term
GWANWYN		SPRING
Diwrnodau Hyfforddiant Staff (HMS)	09/01/2023	Staff Training Days (STD)
Dechrau'r Tymor	10/01/2023	Term Start
Cau Hanner Tymor	17/02/2023	Half Term Close
Diwrnodau Hyfforddiant Staff (HMS)	27/02/2023	Staff Training Days (STD)
Agor Hanner Tymor	28/02/2023	Half Term Open
Diwedd Tymor	31/03/2023	End of Term
HAF		SUMMER
Dechrau'r Tymor	17/04/2023	Term Start
Calan Mai	01/05/2023	May Day
Cau Hanner Tymor	26/05/2023	Half Term Close
Agor Hanner Tymor	05/06/2023	Half Term Open
Diwedd Tymor	19/07/2023	End of Term
Diwrnodau Hyfforddiant Staff (HMS)	20/07/2023	Staff Training Days (STD)

Cytundeb Catref/Ysgol

Dyma gopi o'r cytundeb sy'n cael ei harwyddo gan y plentyn a'i rieni pan fydd yn dod i'r ysgol yn llawn amser:

Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd Cytundeb Cartref/Ysgol



Cytundeb yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn:

Gofalu am ddiogelwch a hapusrwydd eich plentyn.

Annog eich plentyn i wneud ei orau bob amser ac ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Annog eich plentyn i ofalu am ei amgylchedd ac i fod yn ystyriol o eraill.

Darparu cwricwlwm cytbwys ar gyfer anghenion pob unigolyn.

Rhoi gwybodaeth i rieni/gwarchodwyr am faterion cyffredinol yr Ysgol.

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig blynyddol am bob plentyn a threfnu noson rieni ddwywaith y flwyddyn.

Rhoi cyfle i gyfrannu i fywyd yr ysgol.

Cytundeb rhiant/gwarchodwr

Byddaf yn:

Sicrhau bod fy mhentyn yn mynychu'r ysgol yn gyson, yn brydlon a chanddo'r cyfarpar angenrheidiol ar gyfer ei waith ysgol, a byddwn yn rhoi eglurhad i'r ysgol ar unwaith am absenoldeb plentyn mewn llythyr, gair neu alwad ffôn.

Hysbysu'r ysgol os bydd unrhyw broblem allai effeithio ar waith ysgol neu ymddygiad fy mhentyn.

Ei gefnogi gyda holl agweddau gwaith cartref.

Mynychu nosweithiau rhieni a phob cyfle i drafod datblygiad fy mhentyn.

Cefnogi polisïau'r ysgol a chanllawiau ymddygiad.

Dod i wybod am fywyd fy mhentyn yn yr ysgol.

Cytundeb disgybl

Ceisiaf fy ngorau i:

Wneud fy rhan i ddod yn brydlon bob dydd.

Ddod â phopeth y byddaf ei angen at waith y dydd a gofalu amdanynt.

Wneud fy ngorau gyda'm gwaith ysgol a gwaith cartref.

Helpu eraill a bod yn gwrtais.

Gofalu am fuddiannau'r ysgol.

Parchu fy nghyd ddisgyblion ac oedolion.

Arwyddwyd (plentyn a rhiant): _____

Canlyniadau Aseidiadau Athrawon

Gweler y tablau isod am grynodeb o ganlyniadau diwedd Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2) a Chyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6) Haf 2019. (*Ni chafwyd profion cenedlaethol nac aseidiadau athrawon yn ystod Haf 2020, Haf 2021 na Haf 2022 gan y bu'r ysgolion ar gau am gyfnodau oherwydd Covid19)

Adroddiad Dilysiad yr Ysgol 2019 (Diwedd y Cyfnod Sylfaen - Disgyblion)



(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)
Sir Ddinbych
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

		N	D	W	Z	S	G	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	46.7	53.3	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	33.3	66.7	0.0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	53.8	46.2	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	66.7	33.3	0.0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	50.0	50.0	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	66.7	33.3	0.0
Datblygiad mathemategol	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	60.0	40.0	0.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	13.3	40.0	46.7	0.0

DCS **

2019	100.0
2018	86.7

Nodiadau

N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwysio

D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredid bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.

W: Gweithio tuag at Ddeiliant y Cyfnod Sylfaen.

A: Perfformiad yn uwch na Deiliant 6 y Cyfnod Sylfaen.

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05

** : Wedi cyflawni'r deilliannau a ddisgwyliwyd yn y canlynol "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Gymraeg)" neu "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)", "Datblygiad mathemategol", a "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol".

Adroddiad Dilysiad yr Ysgol 2019 (CA2 - Disgyblion)



(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)
 Sir Ddinbych
 Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	4+
Saesneg	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	37.5	62.5	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.7	40.0	53.3	0.0	93.3
Llafaredd	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	37.5	62.5	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.7	40.0	53.3	0.0	93.3
Darllen	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	37.5	62.5	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.7	40.0	53.3	0.0	93.3
Ysgrifennu	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	37.5	62.5	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.7	40.0	53.3	0.0	93.3
Cymraeg Iaith Gyntaf	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	20.0	80.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	54.5	45.5	0.0	100.0
Llafaredd	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	20.0	80.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	54.5	45.5	0.0	100.0
Darllen	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	20.0	80.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	54.5	45.5	0.0	100.0
Ysgrifennu	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	40.0	60.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	9.1	45.5	45.5	0.0	90.9
Mathemateg	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	37.5	62.5	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	46.7	53.3	0.0	100.0
Gwyddoniaeth	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	50.0	50.0	0.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	6.7	40.0	53.3	0.0	93.3
Cymraeg Ail Iaith	2019	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	100.0	100.0
	2018	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	25.0	50.0	25.0	100.0

Dangosydd Pwnc Craidd **	
2019	100.0
2018	93.3